**Datganiad o Barth Gwyliadwriaeth a dirwyn i ben Barth Gwarchod, sydd wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SO1576898850.**

Mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru, yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 28(1), 29(1) a (2), gwnaeth Gweinidogion Cymru ddatgan Parth Gwarchod a Pharth Gwyliadwriaeth wedi'u canoli ar gyfeirnod grid SO1576898850 ar 16:54 ar 23 Ebrill 2023.

Yn unol ag erthygl 36(1) o'r Gorchymyn, mae'r Gweinidogion Cymru nawr yn datgan bod y Parth Gwarchod hwnnw yn dod i ben. Mae o leiaf 21 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhau'r holl fesurau glanhau a diheintio cychwynnol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn yn yr holl safleoedd heintiedig yn y Parth hwnnw ac mae ymchwiliad filfeddygol wedi'i chwblhau ar bob safle yn y Parth y ceir dofednod neu adar caeth eraill ynddynt.

Yn unol ag erthyglau 28(1) a 29(2) o'r Gorchymyn, ac ar ôl ystyried y meini prawf a'r ystyriaethau a nodir yn erthygl 29(5) ar (6), mae Gweinidogion Cymru yn datgan mai'r ardal a ddisgrifir yn Atodiad 1 i'r Datganiad hwn yw'r Parth Gwyliadwriaeth lle mae'r holl fesurau a nodir yn **Atodlen 5** o'r Gorchymyn yn gymwys[2]. Mae'r mesurau yn Atodlen 5 o'r Gorchymyn wedi eu hatgynhyrchu yn Atodiad 2 o'r Datganiad hwn er hwylustod[3].

Mae'r Parth Gwyliadwriaeth wedi'i farcio ar y map yn Atodiad 3.

Mae'r holl dermau yn y Datganiad hwn wedi'u ddiffinio yn y Gorchymyn.

Gwnaed y Datganiad hwn o dan erthyglau 4, 28(1), 29(2) a 36(1) o'r Gorchymyn. Mae hyn yn dirymu ac yn disodli'r Datganiad a wnaed ar 23 Ebrill 2023 o 16:10 ar 17 Mai 2023 ac yn ailddatgan datganiad y Parth Gwyliadwriaeth

Llofnodwyd: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol

Dyddiad: am 16:10 ar 17 Mai 2023

[1] SI 2006 / 2927 (W.262) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Ffliw Adar (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022 OS 2022/280 (Cy. 81).
2 Mae'r datganiad hwn yn ailgyflwyno'r datganiad o'r parth gwyliadwriaeth a gyhoeddwyd ar 23 Ebrill 2023. Mae Erthygl 36(2) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n deillio o Anifeiliaid mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 yn gymwys ac yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu y bydd yr ardal a oedd o fewn y parth gwarchod yn dod yn rhan o'r parth gwyliadwriaeth pan fydd unrhyw barth gwarchod yn dod i ben, gan ganolbwyntio ar yr un man â'r parth gwarchod.

[3] Yn unol ag erthygl 31(1) o'r Gorchymyn, mae'r mesurau yn Atodlen 5 yn berthnasol mewn perthynas â pharth gwyliadwriaeth.

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru.

*Gall peidio â chydymffurfio â'r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.*

Ceir copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar wefannau Llywodraeth Cymru ac oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Atodiad 1 – Parth Gwyliadwriaeth**

Mae'r Parth Gwyliadwriaeth yn cynnwys yr ardal ar y map, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2, o fewn y cylch du o radiws o 10 cilometr, sydd wedi'i ganoli yng nghyfeirnod grid SO1576898850. Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

**Atodiad 2 - Mesurau mewn Parth Gwyliadwriaeth**

**Cofnod o ymwelwyr**

**1.** Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i feddiannydd y parth lle cedwir y dofednod neu adar caeth eraill gadw cofnodion o—
- (a) enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n ymweld â'r safle (oni bai bod yr ymweliad i ran o'r safle yn unig lle mae pobl yn byw a lle na chedwir unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill);
- (b) dyddiad yr ymweliad;
- (c) a yw'r person wedi cael unrhyw gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle.

**Cofnod o ddofednod**

**2.** Mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw safle lle mae dofednod neu adar caeth yn cael eu cadw yn y parth
- a) gadw cofnod o'r holl ddofednod sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y symudiad.
- b) rhoi gwybod ar unwaith i Weinidogion Cymru am unrhyw gynnydd yn lefelau salwch a marwoldeb neu ostyngiad sylweddol yn y cynhyrchiant wyau neu lle bo hynny'n berthnasol, o ran faint o fwyd a fwyteir neu faint o ddŵr a yfir, neu am wybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â chynhyrchu wyau ar y safle"

**Cofnod o symudiadau dofednod**

3. Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n ymwneud â chludo neu farchnata dofednod neu wyau dofednod yn y parth wneud cofnod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol o'r holl ddofednod ac wyau dofednod y mae wedi'u cludo neu eu marchnata.

**Symudiadau dofednod i'w cofnodi**

4. Mae'n rhaid i'r cofnodion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 2 a 3 uchod gynnwys—
- a) swm a disgrifiad (yn cynnwys rhywogaethau'r dofednod neu fath o wy) a gludwyd neu a farchnatwyd;
- b) yn achos symud o safle yn y parth—
  - (i) dyddiad y symud o'r safle;
  - (ii) safle cyrchfan (os yw'n hysbys);
  - (iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiannaeth yn cael ei throsglwyddo neu wedi'i throsglwyddo iddo;
- c) yn achos symud i safle yn y parth—

(i) dyddiad y symud;
(ii) safle y symudwyd ohono (os yw'n hysbys);
(iii) enw a chyfeiriad y person sydd neu sydd wedi trosglwyddo perchnogaeth neu feddiannaeth;

(d) yn achos marchnata heb symud cysylltiedig, enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y feddiannaeth iddo a'r dyddiad;

**Cwmpas dyletswyddau cadw cofnodion**

**5.** Nid yw paragraffau 1 a 3 yn berthnasol i'r canlynol—

(a) symud wyau'n uniongyrchol i safle manwerthu, ar neu o safle o'r fath neu'n dilyn symudiad o'r fath;
(b) symudiad pobl i sŵau, parciau bywyd gwyllt neu (oni bai ei fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru) unrhyw safle arall sy'n agored i'r cyhoedd, cyn belled nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw ardal lle mae adar yn cael eu cadw;
(c) symudiad y canlynol i safle lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw—
(i) unrhyw berson ar hawl dramwy gyhoeddus neu sy'n defnyddio hawl dramwy i gael mynediad i'r safle;
(ii) tresmaswyr;
(iii) unrhyw berson sy'n gweithredu'r Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a mamaliaid ar ac oddi ar safle**

**6.** (1) Yn amodol ar is-baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson symud dofednod, adar caeth eraill na mamaliaid i neu o safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill, oni bai bod y symud wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn berthnasol i anifeiliaid anwes—

(a) sydd ddim ond yn gallu cael mynediad i ran honno o'r safle lle mae pobl yn byw;
(b) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle; ac
(c) nad oes ganddynt fynediad i unrhyw gewyll neu ardaloedd ar y safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill.

**Mesurau bioddiogelwch**

**7**. Mae'n rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau—

(a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu ffliw adar i neu o'r safle; a
(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

### Sarn, tail dofednod a slyri

**8.** (1) Ni chaiff unrhyw berson symud na lledaenu sarn dofednod a ddefnyddiwyd, tail dofednod na slyri dofednod yn y parth oni bai bod arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol wedi trwyddedu hynny.

*(2) Gall arolygydd milfeddygol awdurdodi symud tail dofednod, gyda'r mesurau bioddiogelwch priodol, o safle yn y parth gwyliadwriaeth i ffatri ddynodedig ar gyfer ei drin neu ei storio ar unwaith ar gyfer ei drin wedi hynny, i leihau'r risg o ledaenu feirws ffliw'r adar.";

### Crynoadau o ddofednod

**9.** Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu unrhyw grynhoad arall yn y parth.

### Rhyddhau adar hela

**10.** Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

### Cyfyngiadau ar symud dofednod ac wyau yn y parth

**11.** Yn amodol ar baragraff 12, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu wyau o fewn y parth (ac eithrio drwy'r parth ar y ffordd neu'r rheilffordd heb aros), oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r holl fesurau bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol yn amodau trwydded.

### Dosbarthu wyau i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu yn y parth

**12.** Nid yw paragraff 11 yn berthnasol i symud wyau'n uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu, neu'n dilyn symudiad o'r fath.

### Mesurau bioddiogelwch

**13.** Ni ddylai arolygydd milfeddygol roi trwydded o dan baragraff 11 oni bai ei fod yn fodlon y bydd y trwyddedai'n cymryd mesurau bioddiogelwch priodol ac mae'n rhaid i gymryd mesurau o'r fath fod yn amodau'r drwydded.

### Symud dofednod i ladd-dy

**14.** Gall arolygydd milfeddygol roi trwydded i symud dofednod o'r tu allan i unrhyw barthau gwarchod a gwyliadwriaeth ffliw adar i ladd-dy o fewn y parth gwyliadwriaeth a symudiadau dilynol y cig sy'n deillio o ddofednod o'r fath.

### Cyfyngiadau ar symud dofednod ac wyau allan o'r parth

**15.** (1) Yn amodol ar baragraff 16, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu wyau allan o'r parth, oni bai bod y symud yn—

(a) symudiad a nodwyd yn is-baragraff (2); a

(b) wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol.

(2) Mae'r symudiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yn symudiadau—

(a) dofednod i'w lladd (os bodlonir gofynion paragraff 17);

(b) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 18);
(c) cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth ac a gadwyd ar wahân i wyau a gynhyrchwyd mewn parth o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 19);
(d) dofednod sy'n barod i ddodwy neu Galliformes a symudir o safle deor i safle magu, i safle neu ran o safle lle nad oes dofednod yn cael eu cadw;
(e) wyau deor o'r parth—
  (i) i ddeorfa ddynodedig; neu
  (ii) i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol (os bodlonir gofynion paragraff 20 yn y ddau achos);
(f) wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 21);
(g) wyau i waith prosesu wyau;
(h) wyau ar gyfer eu gwaredu;
(i) dofednod i filfeddygfa ar gyfer eu trin neu i safle dechrau'r daith ar ôl dychwelyd o symudiad o'r fath.

### Dosbarthu wyau bwrdd i safleoedd cyfanwerthu a manwerthu

**16.** Nid yw paragraff 15 yn berthnasol i symud wyau bwrdd yn uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu, neu'n dilyn symudiad o'r fath.

### Gofynion wrth symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig

**17.** Rhaid peidio â symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig y tu allan i'r parth oni bai bod y gofynion canlynol wedi'u bodloni-

(a) bod arolygydd milfeddygol wedi archwilio'r dofednod ar y safle ddim mwy na 24 awr cyn eu bod yn gadael y safle;
(b) ar sail asesiad o'r risg, bod samplau wedi'u cymryd o'r dofednod a'u bod wedi cael prawf am ffliw'r adar yn unol â'r llawlyfr diagnostig;
(c) bod y gweinidog priodol sy'n gyfrifol am y lladd-dy dynodedig wedi cael gwybod a'i fod wedi cytuno i dderbyn y dofednod.

### Gofynion wrth symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu wyliadwriaeth neu o wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath

**18.** Ni ddylid symud cywion diwrnod oed o wyau a gynhyrchwyd yn y parth gwarchod neu o wyau sydd wedi dod i gysylltiad ag wyau o'r fath oni bai y cydymffurfir ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol drwy hysbysiad neu amod trwydded.

### Gofynion wrth symud cywion diwrnod oed sydd wedi deor o wyau sy'n deillio o'r tu allan i'r parthau gwarchod a gwyliadwriaeth

**19.** Ni ddylid symud cywion diwrnod oed sy'n deillio o'r tu allan i unrhyw barthau gwarchod a gwyliadwriaeth ffliw adar oni bai bod y ddeorfa yn y parth yn cael ei gweithredu mewn ffordd sy'n golygu na ddaw'r wyau hynny i gysylltiad ag wyau neu gywion diwrnod oed o fewn y parth.

### Gofynion wrth symud wyau deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol

**20.** Ni ddylid symud wyau deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig, neu i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol oni bod yr wyau a'u deunydd pacio wedi'u diheintio cyn iddynt adael y safle.

### Gofynion wrth symud wyau i ganolfan pacio wyau

**21.** Ni ddylid symud wyau i ganolfan pacio wyau ddynodedig oni bai—

(a) eu bod wedi'u pacio mewn deunydd pacio y gellir ei daflu neu ddeunydd pacio sydd wedi'i lanhau a'i ddiheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r arolygydd milfeddygol; a
(b) bod unrhyw berson sy'n cludo'r wyau'n cydymffurfio ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a bennwyd gan arolygydd milfeddygol.

### Glanhau a diheintio cerbydau sy'n cludo unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi

**22.** Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n symud unrhyw ddofednod, aderyn caeth arall, cig, porthiant, tail, slyri, sarn neu unrhyw beth arall a allai fod wedi'i halogi, lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y bydd wedi'i ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

### Glanhau a diheintio cerbydau

**23.** Mae'n rhaid i berson sy'n cyrraedd neu'n gadael safle yn y parth mewn cerbyd lanhau a diheintio unrhyw ran o'r cerbyd a allai fod wedi'i halogi yn ddi-oed, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

## Atodiad 3

### Map sy'n dangos y Parth Gwyliadwriaeth (10km) wedi'i chanoli ar gyfeirnod grid SO1576898850.

Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000]

